# DATBLYGU EICH BUSNES
## Mehefin 2017 – Awst 2017

FARMING connect cyswllt FFERMIO

### Statws RAG


■ Coch: Dan y targed ■ Oren: Bron â chyrraedd y targed ■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**Cyfanswm sydd wedi Cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ers 1/10/2015**


**7740** BUSNES a **15219** UNIGOLYN

### Gwasanaeth Cynghori

Ceisiadau a gymeradwywyd ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori 1/10/2015 – 30/8/2017





Cymhariaeth chwarterol ar gyfer ceisiadau a gymeradwywyd




### Gwasanaeth Cynghori:

O ganlyniad i'r cyngor, a ydych wedi neu a fyddwch yn gwneud newidiadau i'ch busnes?




Sylwadau gan fuddiolwyr:

*"Mae'r cyngor wedi ein helpu i fwydo'r gwartheg yn gywir. Mae hyn wedi gwella ffrwythlondeb gwartheg ac felly wedi cynyddu elw'r fferm!"*

*"Yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan y cwmni. Roedd y cynghorydd yn onest iawn a rhoddwyd cyngor sylweddol i ni gan roi amrywiaeth o opsiynau i ni a'n helpu i wella ein fferm a ni'n hunain. Byddem yn argymell y gwasanaeth!"*

### Cymorthfeydd un i un

Mae'r cymorthfeydd yn darparu cyngor un i un gydag ymgynghorydd mewn lleoliadau penodol.

Un i Un

**Targed blynyddol = 60 Targed a gyrhaeddwyd = 52**

- **1** CYMHORTHFA CYNLLUNIO
- **3** CYMHORTHA MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO
- **5** CYMHORTHFA OLYNIAETH
- **2** GYMHORTHFA TG
- **34** CYMHORTHFA PDP
- **7** CYMHORTHFA ADOLYGU BUSNES DIGIDOL

### Cymhorthfa Gynllunio

Adborth gan 6 a fynychodd:

**100%** YN DWEUD BOD Y GYMHORTHFA YN DDA IAWN NEU'N ARDDERCHOG

**100%** WEDI DYSGU RHYWBETH NEWYDD

Dyfyniad gan fuddiolwyr:

*Mae'r gymhorthfa hon wedi ein galluogi i ddysgu am gynllunio a'r gweithdrefnau, a beth yw'r camau nesaf.*

### Clinig

Sesiynau un i un i dderbyn cyngor ac arweiniad penodol i'r busnes.

**Targed blynyddol = 21 Targed a gyflawnwyd = 9**

- **1** CLINIG CLOFFNI
- **2** GLINIG TAIL DOFEDNOD
- **1** CLINIG ARCHWILIAD YNNI DOFEDNOD
- **2** GLINIG PRIDD A GLASWELLTIR
- **1** CLINIG GWAITH PAPUR NVZ
- **1** CLINIG PORI CYLCHDRO
- **1** CLINIG MAMOGIAID ANFFRWYTHLON

### Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

...Sioeau teithiol mewn sectorau penodol, digwyddiadau galw heibio a gweithdai.

**Targed blynyddol = 70 Targed a gyflawnwyd = 5**

- **1** DIGWYDDIAD FFERMIO AR GYFER Y DYFODOL
- **4** DIGWYDDIAD I DDEALL GOFYNION MASNACH YN Y FARCHNAD FYD-EANG

**5** CYNHALIWYD digwyddiad gyda **506** O FYNYCHWYR

**Adborth gan y diwydiant:**

**86%** YN DWEUD BOD Y DIGWYDDIAD YN DDA IAWN NEU'N ARDDERCHOG

**81%** WEDI DYSGU RHYWBETH NEWYDD

*"Ardderchog! Digon o amser i'r gynulleidfa holi cwestiynau."*
*"Cyflwyniadau da a siaradwyr cynhwysfawr"*

## Digwyddiadau ar y cyd gyda HCC

Deall gofynion masnach yn y farchnad fyd-eang

**4** CYNHALIWYD 4 DIGWYDDIAD AR Y CYD gyda **63** O FYNYCHWYR

Cynhaliwyd y digwyddiadau yma ledled Cymru ar y cyd â Hybu Cig Cymru yn trafod masnach yn y Farchnad Fyd-eang. Roedd y digwyddiadau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Sut allai'r **Farchnad Fyd-eang** effeithio ar fusnesau fferm
- **Pwysigrwydd Masnach Allforio** far gyfer diwydiant Cig Coch Cymru
- **Gofynion allforio** nawr ac ar ôl Brexit
- **Sicrhau** mynediad i'r farchnad

Dyfyniadau gan fynychwyr

**"Digwyddiad ardderchog a digon o amser i'r gynulleidfa holi cwestiynau"**
**"Noson ardderchog, tipyn o wybodaeth"**

## Grwpiau Trafod

**57** CYFARFOD gyda **361** O FYNYCHWYR

## Astudiaeth Achos

### Cyfarfod Grŵp Trafod Cyfrif Wyau Ysgarthol (FEC)

Cynhaliwyd Digwyddiad ym mis Mehefin ar fferm gyda Grŵp Trafod Defaid Brynbuga i edrych ar reolaeth FEC a strategaethau pesgi ŵyn gyda Hilary Jones, Usk Vets, a Kate Hovers.

Agorwyd y cyfarfod gydag arddangosiad gan Hilary Jones o'r technegau arfer dda ar gyfer casglu ysgarthion ar gyfer FEC mewn ŵyn. Yna cymerwyd samplau gan grŵp o ŵyn a dadansoddi'r canlyniadau gan ddefnyddio microsgop cyn trafod y canlyniadau yn ddiweddarach yn ystod y cyfarfod.

**Prif Neges:** Mae'n hanfodol i beidio â than-ddosio oen, ond mae hefyd yn hollbwysig i beidio â gor-ddosio oen yn sylweddol. Mae'n bwysig gosod y gyfradd ddosio yn ofalus a'i addasu fel bo'r angen wrth fynd drwy'r grŵp o ŵyn.

**Syniad:** Gwahanwch yr ŵyn lleiaf a'u trin fell grŵp gwahanol. Gosodwch gyfradd y gwn i roi "dau bwmp" i oen mawr ac "un pwmp" ar gyfer oen bach, fel modd rhwydd o drin.

## Sioeau Haf

Bûm yn bresennol mewn 8 Sioe Haf rhanbarthol yn ystod y chwarter:

| | | |
|---|---|---|
| SIR FYNWY | ABERTEIFI | BRO MORGANNWG |
| LLAMBED | YNYS MÔN | SIR BENFRO |
| DINBYCH A FFLINT | MEIRIONNYDD | |

Yn ogystal â'r uchod, bûm yn bresennol yn Sioe Frenhinol Cymru a digwyddiad Dom a Phridd Sioe Frenhinol Cymru yn Sir Gâr.

## Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru

| | |
|---|---|
| Ffurflenni ymholiadau a gwblhawyd yn ystod yr wythnos | 158 |
| Cyfanswm nifer y cofrestriadau newydd a dderbyniwyd yn ystod yr wythnos | 30 |
| Cynlluniau Datblygu Personol a gwblhawyd yn ystod yr wythnos | 10 |

Roedd y digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru eleni yn cynnwys:

- Cymorthfeydd galw heibio PDP
- Lansiad y Lab Amaeth
- Cwrdd â'r Mentor
- Cinio Rhwydweithio Merched mewn Amaeth
- Lesley Griffiths, AC, yn cyhoeddi enillwyr y rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth
- Clinig un i un gydag Ian Beecher-Jones, Ymgynghorydd Ffermio Manwl Gywir
- Digwyddiad alumni'r Academi Amaeth, yng nghwmni Lesley Griffiths, AC – cafodd holl gyn aelodau ac aelodau presennol yr Academi Amaeth hefyd wahoddiad
- Digwyddiad Rhwydweithio DPO
- Gwella ffrydiau incwm fferm trwy blannu coed o'r newydd a'r cod carbon coetir
- Dyfodol Technoleg Ffermio Manwl Gywir a'r prosiect 'Aur Melyn' ym Mhrifysgol Harper Adams
- Digwyddiad EIP



## Digwyddiad Dom a Phridd

Mae un o Safleoedd Arloesedd Cyswllt Ffermio, Gelli Aur, lleoliad digwyddiad Dom a Phridd Sioe Frenhinol Cymru 2017, yn treialu system torri silwair sawl gwaith yn ystod y tymor ac yn archwilio'r gwahaniaeth costau rhwng defnyddio peiriant torri manwl gywir a wagen borthiant. Cafodd ymwelwyr â stondin Cyswllt Ffermio gyfle i weld sut mae symud o system draddodiadol o dorri silwair deirgwaith wedi gwella ansawdd ar fferm y coleg. Cafodd ymwelwyr hefyd gyfle i ddysgu sut mae Ffermwr Arddangos o Ogledd Cymru yn ceisio gwella glaswelltir a lleihau ei ddefnydd o wrtaith drwy dargedu mewnbynnau maeth, a chafwyd cyfle i glywed cyflwyniad ar gynnal strwythur da i'r pridd gan yr arbenigwr glaswelltir annibynnol, Chris Duller.

